

**COMISIWN FFINIAU I GYMRU**



**Comisiwn Ffiniau  
i Gymru**

**Boundary Commission  
for Wales**

**CYNLLUN IAITH GYMRAEG**  
Paratowyd yn Unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

**Chwefror 2015**

Dyddiad Cymeradwyo:	Chwefror 2015
Cymeradwywyd gan:	Aelodau'r Comisiwn
Dyddiad Adolygu:	Chwefror 2017

**COMISIWN FFINIAU I GYMRU**

**CYNLLUN IAITH GYMRAEG**

**DATGANIAD**

**Paratowyd y cynllun hwn yn unol ag adran 21(3) Deddf yr Iaith  
Gymraeg 1993 a derbyniodd gymeradwyaeth lawn Bwrdd yr Iaith  
Gymraeg ar 7 Tachwedd 1997**

**Cafodd y cynllun hwn ei ddiwygio a'i ddiweddarau ym mis  
Chwefror 2015, gan ystyried goblygiadau Mesur yr Iaith Gymraeg  
(Cymru) 2011**

**COMISIWN FFINIAU I GYMRU**

**CYNLLUN IAITH GYMRAEG**

**CYNNWYS**

	<b>Tudalen</b>
<b>1. CYFLWYNIAD</b>	<b>5</b>
<b>2. CYNLLUNIO GWASANAETHAU</b>	<b>6</b>
<b>3. CYFLWYNO GWASANAETHAU A SAFONAU ANSAWDD</b>	<b>6</b>
<b>4. DELIO Â'R CYHOEDD SY'N SIARAD CYMRAEG</b>	<b>7</b>
Gohebiaeth	7
Galwadau ffôn	8
Cyfarfodydd cyhoeddus	9
Cyfarfodydd eraill gyda'r cyhoedd	9
<b>5. WYNEB CYHOEDDUS Y COMISIWN FFINIAU I GYMRU</b>	<b>10</b>
Hunaniaeth gorfforaethol	10
Cyhoeddiadau	10
Hysbysiadau i'r wasg	11
Hysbysiadau i'r cyfryngau	11
Arolygon cyhoeddus	11
Gwefan	11
Cyfryngau cymdeithasol	12
<b>6. GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN</b>	<b>12</b>
Staffio	12
Hysbysebion recriwtio	12
Recriwtio	13
Hyfforddiant iaith	13
Trefniadau gweinyddol i hwyluso'r cynllun	13
Gwasanaethau a gyflwynir gan bartion eraill ar ran y Comisiwn	14
Monitro	14

	Cyhoeddusrwydd i wasanaethau Cymraeg y Comisiwn	15
<b>7.</b>	<b>AWGRYMIADAU AR GYFER GWELLIANNAU/CWYNION</b>	<b>16</b>
	<b>ATODIAD A – AMSERLENNI A THARGEDAU</b>	<b>17</b>

Comisiwn Ffiniau i Gymru  
*Tŷ Hastings*  
*Llys Fitzalan*  
**CAERDYDD**  
**CF24 0BL**  
*Rhif Ffôn: (029) 20464819*  
*Rhif Ffacs: (029) 20464823*  
*E-bost: [comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk](mailto:comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk)*  
*[www.comffin-cymru.gov.uk](http://www.comffin-cymru.gov.uk)*

**Chwefror 2015**

# COMISIWN FFINIAU I GYMRU

## CYNLLUN IAITH GYMRAEG

*Paratowyd yn unol ag Adran 12 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993*

### 1. CYFLWYNIAD

Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru yn Gorff Cyhoeddus Anadrannol cynghorol a noddir ac a ariennir gan Swyddfa'r Cabinet. Mae wedi'i gyfansoddi o dan atodlen 1 i Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd) fel a ganlyn:

<b>Cadeirydd</b>	Llefarydd Tŷ'r Cyffredin
<b>Dirprwy Gadeirydd</b>	Barnwr yr Uchel Lys wedi'i benodi gan yr Arglwydd Ganghellor
<b>Dau Gomisiynydd</b>	Wedi'u penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol
<b>Asesydd</b>	Y Bwrdd Ystadegau
<b>Asesydd</b>	Cyfarwyddwr Cyffredinol Arolwg Ordnans
<b>Ysgrifennydd</b>	Wedi'i benodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol
<b>Comisiynwyr Cynorthwyol</b>	Unigolion Annibynnol wedi'u penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol i gynnal Gwrandawiadau Cyhoeddus

Mae'r Comisiwn yn cynnal ei gyfarfodydd yng Nghaerdydd, ac mae'n cael cymorth Ysgrifenyddiaeth o hyd at 9 aelod o staff, a ddarperir ar hyn o bryd gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, yng Nghaerdydd.

Mae Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd) a Deddf Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gynnal arolwg cyffredinol yn gyfnodol o'r holl etholaethau yng Nghymru ar yr un pryd, a chyflwyno adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol yn dangos yr etholaethau y mae'n eu hargymhell.

Wrth gynnal arolygon, mae'n ofynnol i'r Comisiwn gyhoeddi ei argymhellion cychwynnol, gwahodd cynrychiolaethau ynglŷn â'r cynigion

hynny, a rhoi ystyriaeth i'r cyfryw gynrychiolaethau. Mae'r Comisiwn hefyd yn cyhoeddi datganiadau newyddion a mapiau i gynorthwyo pobl i ddeall ei gynigion.

Fel rhan o'r arolwg gall y Comisiwn gynnal Gwrandawiadau Cyhoeddus. Mae diben Gwrandawriad Cyhoeddus wedi'i ddiffinio yn y ddeddfwriaeth i alluogi i gynrychiolaethau gael eu gwneud ynglŷn ag unrhyw rai o'r cynigion y mae a wnelo'r gwrandawriad â nhw. Rhaid cynnal y cyfryw wrandawiadau yn ddwyieithog.

Pan gwblheir pob arolwg, rhaid i'r Comisiwn gyflwyno'i argymhellion terfynol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Swyddfa'r Cabinet mewn adroddiad y mae'n ofynnol iddo/iddi ei roi gerbron y Senedd ynghyd â Gorchymyn drafft yn y Cyfrin Gyngor yn gweithredu argymhellion y Comisiwn. Os caiff ei gymeradwyo gan ddau Dy'r Senedd, cyflwynir y Gorchymyn i'w wneud gan Ei Mawrhydi yn Ei Chyngor. Ar ôl i'r Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor gael ei wneud, daw'r ffiniau etholaethau newydd i rym yn yr etholiad cyffredinol dilynol.

Wrth gyflawni'r swyddogaethau hyn, ac er mwyn darparu gwasanaeth yn y ddwy iaith, dyma a fyddwn ni'n ei wneud.

## **2. CYNLLUNIO GWASANAETHAU**

Mae'r Comisiwn yn paratoi Cynllun Busnes Blynyddol, sy'n nodi rhaglen waith, targedau blynyddol, dangosyddion perfformiad, safonau ac adnoddau ar gyfer pob blwyddyn. Wrth gynllunio'r ddarpariaeth gwasanaethau, rydym yn ymrwymedig i:

- Gynnal y mesurau hynny sy'n hyrwyddo a hwyluso'r egwyddor o gydraddoldeb wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn unol â'r cynllun hwn.
- Ehangu'r egwyddor i unrhyw bolisi, gweithgaredd neu bryniant newydd, gan sicrhau y datblygir mesurau ychwanegol sy'n gyson â'r cynllun hwn.
- Cael cytundeb y Comisiynydd Iaith Gymraeg parthed unrhyw newidiadau yn y cynllun.
- Monitro effeithiolrwydd gweithredu'r mesurau a nodir yn y cynllun hwn.

### **3. CYFLWYNO GWASANAETHAU A SAFONAU ANSAWDD**

Ein prif swyddogaeth statudol yw parhau i arolygu dosbarthiad seddau mewn etholiadau Seneddol, cynnal arolygon rheolaidd o ffiniau etholaethau Seneddol a chyflwyno adroddiadau gydag argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unol â darpariaethau Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd). Ymgymerir â chyhoedduswydd eang i sicrhau bod ein gwaith arolygu a'r cynigion dilynol yn cael cyhoedduswydd eang. Rydym yn croesawu ymatebion i'n prosesau ymgynghori yn yr iaith Gymraeg.

Er mwyn gweithredu ein polisi iaith Gymraeg, mae pob llythyr cychwynnol, cyhoeddiad a chyhoedduswydd yn ddwyieithog. Rydym yn defnyddio templedi sylfaenol a meddalwedd TG sy'n gydnaws â sgript. Mae gennym gontract ar gyfer darparu gwasanaeth cyfieithu cynhwysfawr.

Rydym wedi cymryd camau i ddarparu gwasanaeth cyfartal yn y ddwy iaith. Mynegir y camau hyn fel mesurau yn yr adrannau dilynol. Mewn dwy ffordd: wrth ateb galwadau ffôn ac wrth ddelio ag ymwelwyr heb apwyntiad, mae'r gallu i ymateb yn Gymraeg yn amrywio o bryd i'w gilydd yn ôl sgiliau ieithyddol y staff a gyflogir ar y pryd. Nodir y mesurau a gymerwyd i ymdrin â'r amgylchiadau hyn yn yr adrannau perthnasol sy'n delio â chyfathrebu a recriwtio.

Mae safonau perfformiad yr un fath ar gyfer y ddwy iaith.

### **4. DELIO Â'R CYHOEDD SY'N SIARAD CYMRAEG**

#### **Gohebiaeth**

Fel mater o gwrteisi, byddwn fel arfer yn hysbysu pencadlysoedd cenedlaethol y prif bleidiau gwleidyddol, Aelodau Seneddol, Aelodau'r Cynulliad, awdurdodau lleol, a phartïon eraill â buddiant yn uniongyrchol am ddechrau arolwg.

Rydym yn dechrau pob arolwg drwy lunio cynigion yn annibynnol ac yn ddiuedd, heb ein dylanwadu gan unrhyw safbwynt neu farn benodol. Ar ôl cyhoeddi'r cynigion, mae'r gweithdrefnau statudol yn caniatáu ar gyfer dadl gyhoeddus lawn, a gall partïon â buddiant ddweud eu barnau wrth y Comisiwn trwy lythyr neu neges e-bost neu drwy leisio'u barnau mewn gwrandawiadau cyhoeddus.

*Mesurau:*

- Bydd llythyrau i'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog, yn ogystal â llythyrau eraill a anfonir at y rheiny na wyddys pa un yw eu dewis iaith.
- Paratoir templedi ein llythyrau yn y ddwy iaith.

Mae'r Comisiwn yn croesawu llythyrau a negeseuon e-bost wedi'u hysgrifennu yn Gymraeg.

*Mesurau:*

- Os byddwch yn gohebu â ni yn Gymraeg byddwn yn ateb yn Gymraeg.
- Mae ein hamser targed ar gyfer ateb i lythyrau a negeseuon e-bost yn Gymraeg yr union yr un fath â'r un ar gyfer ateb llythyrau a negeseuon e-bost yn Saesneg.
- Pan fyddwn yn ysgrifennu at unigolyn, grŵp neu sefydliad y gwyddom eu bod yn gweithio yn bennaf yn Gymraeg, neu fod yn well ganddynt dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg, byddwn yn ysgrifennu yn Gymraeg.
- Yn dilyn cyfarfod wyneb yn wyneb neu sgwrs ffôn yn Gymraeg, bydd unrhyw ohebiaeth ddilynol yn Gymraeg, oni wneir cais i ni wneud fel arall.
- Er mwyn gallu gweithredu'r mesurau hyn, cysylltw'n â'n gwasanaeth cyfieithu dros y ffôn a'r e-bost. Rydym yn cadw cronfa ddata o'r rheiny sy'n dymuno delio â ni yn Gymraeg.

### **Galwadau Ffôn**

Croesewir ymholiadau ffôn yn Gymraeg. Mae argaeledd staff sy'n gallu siarad Cymraeg yn amrywio o bryd i'w gilydd gyda throsiant staff ond byddwn bob amser yn ceisio dod o hyd i rywun sy'n siarad Cymraeg i ateb eich ymholiad.



*Mesurau:*

- Os byddwch yn ffonio'r Comisiwn ac yn dymuno siarad Cymraeg, ond nad yw'r person sy'n cymryd yr alwad yn gallu siarad Cymraeg, cewch eich trosglwyddo i aelod o'r staff sy'n siarad Cymraeg os bydd ar gael. Os na fydd aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael, cewch ddewis cyfieithydd allanol yn eich ffonio yn ôl, neu barhau â'r alwad yn Saesneg.
- Fodd bynnag, efallai y bydd adegau pan na fydd unrhyw un ar gael a all ateb eich ymholiad yn llawn - yn enwedig os bydd yn arbenigol. (Gall yr un broblem godi gydag ymholiadau ffôn yn Saesneg.) Yn yr achosion hyn bydd rhywun yn gofyn i chi am fanylion eich ymholiad, neu gallant eich cyngori i anfon eich ymholiad atom yn ysgrifenedig. Yna byddwch yn derbyn ateb yn Gymraeg drwy'r post.
- Mae gennym beiriant ateb dwyieithog.

### **Cyfarfodydd Cyhoeddus**

Byddwn o dro i dro yn trefnu cyfarfodydd cyhoeddus ledled Cymru a chroesewir pobl sy'n defnyddio'r Gymraeg.

*Mesurau:*

- Byddwn yn rhoi cyhoeddusrwydd i gyfarfodydd yn ddwyieithog, gan wneud ein polisi iaith yn glir.
- Byddwn yn sicrhau y bydd aelod o'r Comisiwn neu'r Ysgrifenyddiaeth sy'n siarad Cymraeg yn mynychu cyfarfodydd cyhoeddus.
- Byddwn yn darparu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ym mhob cyfarfod cyhoeddus, ac yn ymdrechu i sicrhau y gall cynrychiolydd o'r Comisiwn ymgysylltu â chyfranwyr sy'n siarad Cymraeg.

### **Cyfarfodydd Eraill gyda'r Cyhoedd**

Yn ogystal â chyfarfodydd cyhoeddus, bydd achlysuron pan gynhelir cyfarfodydd eraill gydag unigolion a sefydliadau.

*Mesurau:*

- Pan fyddwn yn trefnu cyfarfod ymlaen llaw gydag unigolyn neu sefydliad, byddwn yn gofyn iddynt pa un yw eu dewis iaith. Os bydd yn well ganddynt ddefnyddio'r Gymraeg, byddwn yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg os yn bosibl neu'n cynnig darparu cyfieithiad.
- Bydd ymwelwyr heb apwyntiad sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn cael cynnig gwasanaeth ein cyfieithydd allanol dros y ffôn os na fydd aelod o'r staff sy'n siarad Cymraeg ar gael.

## **5. WYNEB CYHOEDDUS Y COMISIWN FFINIAU I GYMRU**

### **Hunaniaeth Gorfforaethol**

Mae gan y Comisiwn hunaniaeth ddwyieithog ac rydym wedi mabwysiadu mesurau i gadarnhau hyn

*Mesurau:*

- Mae enw, cyfeiriad a gwybodaeth gysylltiedig am y Comisiwn yn ddwyieithog ar arwyddion ein swyddfa, cloriau cyhoeddiadau a phob ffurf arall ar arddangosiad cyhoeddus.
- Mae gwybodaeth argraffedig ar bapur pennawd, slipiau cyfarch, cardiau busnes staff a deunyddiau ysgrifennu corfforaethol eraill y Comisiwn i gyd yn dilyn yr un fformat dwyieithog.
- Rhoddir amlygrwydd cydradd i'r ddwy iaith.

### **Cyhoeddiadau**

Ar gyfer pob arolwg rydym yn cyhoeddi argymhellion dros dro, argymhellion diwygiedig ac argymhellion terfynol ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Rydym hefyd yn cynhyrchu nodiadau canllaw a chyhoeddiadau eraill o bryd i'w gilydd.

*Mesurau:*

- Byddwn yn cynhyrchu pob cyhoeddiad yn Gymraeg a

Saesneg.

- Wrth ystyried enwau etholaethau, byddwn yn ystyried unrhyw gyngor a ddarperir gan Gomisiynydd y Gymraeg.
- Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd. Bydd yr un mor hawdd mynd at y ddwy fersiwn, a byddant o'r un ansawdd, fformat ac amlygrwydd.

### **Hysbysiadau i'r Wasg**

Rhoddir hysbysiadau i'r wasg i bapurau newydd mewn ardaloedd dan arolwg er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i gamau cychwynnol, diwygiedig a therfynol arolygon.

*Mesurau:*

- Bydd hysbysiadau i'r wasg a roddir i bapurau newydd yng Nghymru yn ddwyieithog.
- Rhoddir cydraddoldeb i'r ddwy iaith o ran fformat, maint ac amlygrwydd ar yr hysbysiadau a gyhoeddwn.

### **Hysbysiadau i'r Cyfryngau**

Rydym yn cyhoeddi hysbysiadau i olygyddion y wasg, radio a theledu, yn eu hysbysu am argymhellion dros dro, argymhellion diwygiedig ac argymhellion terfynol.

*Mesur:*

- Rydym yn paratoi hysbysiadau i'r cyfryngau yn ddwyieithog. Mae'r hysbysiadau hyn fel arfer mewn un ddogfen. Fodd bynnag, gellir paratoi hysbysiadau hir ar wahân yn Gymraeg a Saesneg a'u cyhoeddi gyda'i gilydd.

### **Arolygon Cyhoeddus**

Mae weithiau'n angenrheidiol cynnal arolygon cyhoeddus, er enghraifft i gasglu gwybodaeth ystadegol neu i geisio barn y cyhoedd. Gellir contractio sefydliad allanol i wneud y gwaith hwn.

*Mesur:*

- Byddwn yn cynnal arolygon cyhoeddus yng Nghymru yn Gymraeg ac yn Saesneg.

### **Gwefan**

Mae gwefan y Comisiwn yn darparu gwybodaeth am y Comisiwn yn ogystal â mynediad i gyhoeddiadau yn ymwneud â'r arolygon, cofnodion cyfarfodydd, adroddiadau blynyddol ac ati.

*Mesur:*

- Byddwn yn cynnal gwefan ddwyieithog gyda holl dudalennau'r we a dogfennau ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Bydd diweddariadau i'r wefan yn cael eu gwneud yn y ddwy iaith ar yr un pryd.

### **Cyfryngau Cymdeithasol**

Rydym hefyd yn darparu gwybodaeth am y Comisiwn ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol, yn cynnwys rhybuddion ynglŷn â chyhoeddi arolygon a datblygiadau.

*Mesur:*

- Byddwn yn cyhoeddi pob neges yn y cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg a Saesneg. Bydd y negeseuon hyn yn cael eu cyhoeddi yn y ddwy iaith ar yr un pryd.

## **6. GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN**

### **Staffio**

Nod y Comisiwn yw cael digon o staff sydd â'r sgiliau siarad Cymraeg priodol er mwyn ein galluogi i gyflwyno gwasanaeth llawn drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae ein strategaeth tuag at gyflawni'r nod yn cynnwys arolwg o fanylebau timau a swyddi, gan fanteisio ar gyfleoedd i ddenu siaradwyr Cymraeg yn ystod recriwtio a hyfforddiant.

*Mesur:*

- Byddwn yn edrych ar swyddi i ystyried p'un a fyddai'n hanfodol neu'n ddymunol cael siaradwyr Cymraeg, a nodi hyn yn y disgrifiadau swydd.

## **Hysbysebion Recriwtio**

Caiff swyddi staff, gan gynnwys rhai'r Ysgrifennydd a Dirprwy Ysgrifennydd, eu cyhoeddi ar Wefan Swyddi'r Gwasanaeth Sifil.

### *Mesurau:*

- Bydd disgrifiadau swydd ar gael yn ddwyieithog trwy ddolen ar Wefan Swyddi'r Gwasanaeth Sifil
- Nodir ein polisi iaith a bydd y sgiliau ieithyddol a ddisgwylir o ddeiliad y swydd yn cael eu nodi ym mhob gwybodaeth recriwtio.

## **Recriwtio**

Cynhelir asesiad o alluoedd ymgeiswyr drwy ddefnyddio meini prawf gwrthrychol i sicrhau y gwneir apwyntiadau ymhob achos ar sail deg a chyson.

### *Mesurau:*

- Gallu ieithyddol fydd un o nifer o sgiliau y dylid eu cadw mewn cof wrth benodi staff a chaiff ei asesu yn erbyn y lefel o sgiliau sydd ei hangen ar gyfer y swydd a nodwyd yn flaenorol.

## **Hyfforddiant iaith**

Mae hyfforddiant iaith yn chwarae rhan bwysig wrth gynyddu nifer y staff sy'n gallu gweithio yn Gymraeg.

### *Mesurau:*

- Rydym yn annog staff ac, mewn rhai amgylchiadau arbennig, gallwn ei gwneud yn ofynnol i staff ymgymryd â hyfforddiant iaith addas, er enghraifft, i gynorthwyo ag ynganu enwau lleoedd Cymraeg.
- Byddwn yn ystyried rhoi cymorth ariannol, mewn achosion priodol, pe bai staff yn dymuno ymgymryd â hyfforddiant iaith.
- Byddwn yn asesu'r angen am hyfforddiant galwedigaethol penodol drwy gyfrwng y Gymraeg.

## **Trefniadau Gweinyddol i Hwyluso'r Cynllun**

Cynlluniwyd y mesurau a nodir yn y cynllun hwn i weithredu polisi iaith Gymraeg y Comisiwn. Rydym wedi mabwysiadu'r mesurau gweinyddol ychwanegol canlynol i ategu'r ffordd y caiff y cynllun ei weithredu fel rhan annatod o'n gwaith.

### *Mesurau:*

- Mae'r Ysgrifennydd a'r Dirprwy Ysgrifennydd wedi cael cyfrifoldeb penodol i sicrhau y gweithredir y cynllun yn gyson.
- Mae pob aelod o'r staff wedi derbyn canllaw ysgrifenedig manwl ar ffurf cyfarwyddiadau desg sy'n cynnwys defnyddio'r Gymraeg yng ngwaith y Comisiwn, ac maent wedi derbyn copïau o'r cynllun hwn.
- Byddwn yn sicrhau bod manyleb systemau TG newydd neu rai a gaiff eu newid yn bodloni anghenion y cynllun hwn.
- Bydd tendrau ar gyfer gwasanaethau cyfieithu yn parhau i gael eu hasesu ar gyfer galluogrwydd ac ansawdd gwasanaeth yn ogystal â phris.
- Bydd cyfieithiadau yn cael eu monitro'n rheolaidd i sicrhau bod ansawdd y Gymraeg a ddefnyddir yn ein cyhoeddiadau yn dderbyniol.

## **Gwasanaethau a Gyflwynir ar ran y Comisiwn gan Bartïon Eraill**

Rydym yn cydnabod y dylai'r un safonau fod yn berthnasol pan wneir gwaith ar ein rhan a phan y'i gwneir gan ein staff ein hunain.

### *Mesurau:*

- Bydd unrhyw gytundebau neu drefniadau a wneir gyda thrydydd parti sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru yn gyson â thelerau'r cynllun.
- Bydd y Comisiwn yn amodi, drwy drefniadau contractio, bod y contractwr yn gweithredu unrhyw elfennau perthnasol o'r cynllun wrth ddelio â'r

cyhoedd.

- Bydd y Comisiwn yn nodi'r gofynion o ran defnyddio'r Gymraeg mewn dogfennau tendro a chontractau.

## **Monitro**

Byddwn yn monitro pa mor dda rydym yn bodloni ein hymrwymiad i'r egwyddor o drin yr iaith Gymraeg yn gydradd drwy'r cynllun hwn.

### *Mesurau:*

- Bob blwyddyn bydd yr Ysgrifennydd yn paratoi adroddiad ar gyfer y Comisiwn yn dangos perfformiad o ran gweithredu'r mesurau penodol a fabwysiadwy gennym o ran:

Y Cynllun Busnes Blynyddol  
Cyflwyno gwasanaethau  
Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg  
Hunaniaeth gorfforaethol  
Recriwtio a hyfforddi staff  
Gwasanaethau a gyflwynir gan eraill  
Yr amserlen ar gyfer gweithredu  
Awgrymiadau a chwynion

- Asesir perfformiad yn erbyn targedau yn yr amserlen sy'n atodol i'r cynllun hwn, wedi ei ategu gan gofnodion o eitemau mesuradwy. Bydd yr adroddiad yn rhoi rhesymau dros unrhyw dargedau a fethwyd a nodi camau adfer arfaethedig.
- Cyflwynir yr adroddiad i swyddfa'r Comisiynydd Iaith. Bydd yr adroddiad ar gael yn rhad ac am ddim i'r cyhoedd a bydd ar gael ar wefan y Comisiwn.
- Byddwn yn cynnwys crynodeb o'r adroddiad yn Adroddiad Blynyddol y Comisiwn. Cyhoeddir yr Adroddiad Blynyddol ar wefan y Comisiwn.

## **Cyhoeddusrwydd i Wasanaethau Cymraeg y Comisiwn**

Yn unol â chanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg gynt, hysbysebwyd y cynllun hwn yn y wasg a'i ddosbarthu'n eang. Fodd bynnag, rydym yn awyddus i'r cyhoedd barhau i fod yn ymwybodol o'r ffyrdd y gallant ddewis

cyfathrebu â ni.

*Mesurau:*

- Byddwn yn rhoi cyhoeddusrwydd i'n mesurau ar gyfer gwasanaethu siaradwyr Cymraeg yn ein Hadroddiad Blynyddol.
- Bydd pob cyhoeddiad a chyhoeddusrwydd sy'n gysylltiedig ag arolygon y Comisiwn - ein prif gyswllt â'r cyhoedd - yn dweud yn glir y gall y cyhoedd ddelio â'r Comisiwn yn Gymraeg. Bydd cyhoeddiadau Saesneg yn cynghori'r cyhoedd bod fersiwn Gymraeg ar gael yn ogystal.

## **7. AWGRYMIADAU AR GYFER GWELLIANNAU/CWYNION**

Rydym yn croesawu awgrymiadau ar gyfer gwelliannau i'n mesurau ar gyfer delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg. Os byddwn yn methu o ran yr ymrwymadau a wnaethom yn y cynllun hwn, rydym yn gobeithio y bydd y cyhoedd yn dweud wrthym. Os bydd gennych awgrym ar gyfer gwelliant neu gŵyn ynglŷn â gwasanaethau'r Comisiwn yn Gymraeg, ysgrifennwch at:

Yr Ysgrifennydd  
Comisiwn Ffiniau i Gymru  
Tŷ Hastings  
Llys Fitzalan  
CAERDYDD  
CF24 0BL

neu ffoniwch 029 2046 4819

neu anfonwch ffacs 029 2046 4823

neu neges e-bost [comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk](mailto:comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk)



## Atodiad A

### AMSERLEN A THARGEDAU

Mesur	Targed yr Amserlen
Cynnal mesur sy'n hyrwyddo a hwyluso'r egwyddor o gydraddoldeb wrth ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn unol â'r cynllun hwn.	Parhaus
Sicrhau bod mesurau ychwanegol yn cael eu datblygu i ehangu'r egwyddor i unrhyw bolisi, gweithgaredd neu bryniant newydd.	Parhaus
Cael cytundeb y Comisiynydd Iaith i unrhyw newidiadau.	Fel bo'r angen
Monitro effeithiolrwydd gweithredu'r mesurau a nodir yn y cynllun hwn.	Parhaus
Bydd llythyrau cychwynnol a llythyrau eglurhaol i'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog.	Cyflawnwyd eisoes
Caiff templedi llythyrau eu paratoi yn y ddwy iaith a'u diweddarau fel bo'r angen.	Cyflawnwyd eisoes
Atebion i ohebiaeth yn Gymraeg i fod yn Gymraeg.	Cyflawnwyd eisoes
Yr un amser targed ar gyfer ateb llythyrau yn Gymraeg ag ar gyfer ateb llythyrau yn Saesneg.	Cyflawnwyd eisoes
Ysgrifennu yn Gymraeg at unigolyn, grŵp neu sefydliad y gwyddom eu bod yn gweithio yn bennaf yn Gymraeg neu y mae'n well ganddynt dderbyn llythyrau yn Gymraeg.	Cyflawnwyd eisoes
Bydd gohebiaeth ddilynol, yn dilyn cyfarfod wyneb yn wyneb neu sgwrs ffôn yn Gymraeg, yn Gymraeg, oni ofynnir fel arall.	Cyflawnwyd eisoes
Cronfa ddata i'w chadw o'r rhai sy'n dymuno delio â ni yn Gymraeg.	Cyflawnwyd eisoes
Bydd galwyr sy'n dymuno siarad Cymraeg yn cael eu trosglwyddo i aelod o staff sy'n siarad Cymraeg neu bydd cyfieithydd allanol yn eu ffonio'n ôl, neu gellir parhau â'r alwad yn Saesneg.	Cyflawnwyd eisoes
Mewn achosion lle na fydd unrhyw un ar gael sy'n gallu ateb yr ymholiad yn llawn, gofynnir i'r galwyr am fanylion yr ymholiad, neu cânt eu cynghori i gyflwyno'r ymholiad yn ysgrifenedig. Yna, anfonir ateb yn Gymraeg drwy'r post.	Cyflawnwyd eisoes
Caiff neges ddwyieithog ei recordio ar y peiriant ateb.	Cyflawnwyd eisoes
Rhoddir cyhoeddusrwydd i gyfarfodydd yn ddwyieithog.	Fel bo'r angen
Bydd aelod o'r Comisiwn neu'r Ysgrifenyddiaeth sy'n siarad Cymraeg yn mynychu cyfarfodydd cyhoeddus.	Fel bo'r angen

Darperir cyfleusterau cyfieithu mewn cyfarfodydd pan fydd gofyniad wedi'i nodi.	Fel bo'r angen
Cynhelir cyfarfodydd a drefnir ymlaen llaw yn Gymraeg os bydd angen.	Fel bo'r angen
Cynigir gwasanaeth cyfieithydd allanol dros y ffôn i ymwelwyr dirybudd sy'n dymuno sgwrsio yn Gymraeg os na fydd aelod o'r staff sy'n siarad Cymraeg ar gael.	Fel bo'r angen

Bydd enw, cyfeiriad a gwybodaeth gysylltiedig am y Comisiwn yn ddwyieithog ar arwyddion swyddfa, cloriau cyhoeddiadau a phob ffurf arall ar arddangosiad cyhoeddus.	Cyflawnwyd eisoes
Bydd gwybodaeth argraffedig ar bapur pennawd, slipiau cyfarch, cardiau busnes staff a deunyddiau ysgrifennu corfforaethol eraill y Comisiwn yn ddwyieithog.	Cyflawnwyd eisoes
Rhoddir amlygrwydd cydradd i'r ddwy iaith.	Cyflawnwyd eisoes
Cynhyrchir pob cyhoeddiad yn Gymraeg a Saesneg.	Cyflawnwyd eisoes
Wrth ystyried enwau etholaethau, byddwn yn ystyried cyngor ar roddir gan y Comisiynydd iaith	Parhaus
Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd, a bydd yr un mor hawdd mynd at y ddwy fersiwn, a byddant o'r un ansawdd, fformat ac amlygrwydd.	Cyflawnwyd eisoes
Bydd hysbysiadau i'r wasg a gyhoeddir i bapurau newydd yng Nghymru yn ddwyieithog.	Cyflawnwyd eisoes
Rhoddir cydraddoldeb i'r ddwy iaith mewn hysbysiadau cyhoeddus o ran fformat, maint ac amlygrwydd.	Cyflawnwyd eisoes
Bydd hysbysiadau i'r cyfryngau yn ddwyieithog ac mewn un ddogfen fel arfer. Fodd bynnag, gellir paratoi hysbysiadau hir ar wahân yn Gymraeg a Saesneg a'u cyhoeddi gyda'i gilydd.	Cyflawnwyd eisoes
Cynhelir arolygon cyhoeddus yn Gymraeg a Saesneg.	Fel bo'r angen
Byddwn yn cynnal gwefan ddwyieithog. Bydd diweddariadau i'r wefan yn cael eu gwneud yn y ddwy iaith ar yr un pryd.	Cyflawnwyd eisoes
Bydd negeseuon y cyfryngau cymdeithasol yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg. Bydd y negeseuon hyn yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd.	Cyflawnwyd eisoes

Edrych ar swyddi i ystyried a fyddai'n hanfodol neu'n ddymunol cael siaradwyr Cymraeg, a nodir hyn yn y disgrifiadau swyddi.	Fel bo'r angen
Bydd disgrifiadau swydd ar gael yn ddwyieithog trwy ddolen ar Wefan Swyddi'r Gwasanaeth Sifil	Fel bo'r angen
Nodir y polisi iaith a bydd y sgiliau ieithyddol a ddisgwylir o ddeiliad y swydd yn cael eu nodi ym mhob gwybodaeth recriwtio.	Fel bo'r angen

Gallu ieithyddol fydd un o nifer o sgiliau y dylid eu cadw mewn cof wrth benodi staff a chaiff ei asesu yn erbyn y lefel o sgiliau sydd ei hangen ar gyfer y swydd a nodwyd yn flaenorol.	Fel bo'r angen
Rydym yn annog staff ac, mewn rhai amgylchiadau arbennig, gallwn ei gwneud yn ofynnol i staff ymgymryd â hyfforddiant iaith addas, er enghraifft, i gynorthwyo ag ynganu enwau lleoedd Cymraeg.	Fel bo'r angen
Byddwn yn ystyried rhoi cymorth ariannol, mewn achosion priodol, pe bai staff yn dymuno ymgymryd â hyfforddiant iaith addas.	Fel bo'r angen
Bydd yr angen am hyfforddiant galwedigaethol penodol drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei asesu.	Parhaus
Bydd yr Ysgrifennydd a'r Dirprwy Ysgrifennydd yn sicrhau y gweithredir y cynllun yn gyson.	Parhaus
Bydd pob aelod o'r staff wedi derbyn canllaw ysgrifenedig manwl ar ffurf cyfarwyddiadau desg sy'n cynnwys defnyddio'r Gymraeg yng ngwaith y Comisiwn, a byddant yn cael copïau o'r cynllun hwn.	Parhaus
Bydd yn ofynnol i fanyleb systemau TG newydd neu rai a gaiff eu newid fodloni anghenion y cynllun hwn.	Parhaus
Bydd tendrau ar gyfer gwasanaethau cyfieithu yn parhau i gael eu hasesu ar gyfer galluogrwydd ac ansawdd gwasanaeth yn ogystal â phris.	Parhaus
Bydd cyfieithiadau yn cael eu monitro gan staff i sicrhau ansawdd y cyhoeddiad.	Parhaus
Bydd unrhyw gytundebau neu drefniadau a wneir gyda thrydydd parti sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru yn gyson â thelerau'r cynllun.	Parhaus
Bydd y Comisiwn yn amodi, drwy drefniadau contractio, bod y contractwr yn gweithredu unrhyw elfennau perthnasol o'r cynllun wrth ddelio â'r cyhoedd.	Parhaus
Bydd y Comisiwn yn nodi'r gofynion o ran defnyddio'r Gymraeg mewn dogfennau tendro a chontractau.	Fel bo'r angen
Bob blwyddyn bydd yr Ysgrifennydd yn paratoi adroddiad ar gyfer y Comisiwn yn dangos perfformiad o ran gweithredu'r mesurau penodol a fabwysiadwyd gennym.	Yn flynyddol ym mis Ebrill
Bydd yr adroddiad yn rhoi rhesymau dros unrhyw dargedau a fethwyd a nodi camau adfer arfaethedig.	Yn flynyddol ym mis Ebrill
Cyflwynir yr adroddiad perfformiad hwn i'r Comisiynydd Iaith. Bydd yr adroddiad ar gael yn rhad ac am ddim i'r cyhoedd.	Yn flynyddol ym mis Mai
Cynhwysir crynodeb o'r adroddiad yn Adroddiad Blynyddol y Comisiwn.	Yn flynyddol ym mis Medi
Bydd Adroddiad Blynyddol y Comisiwn yn rhoi	Yn flynyddol

cyhoedduswydd i'n mesurau ar gyfer gwasanaethu'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg.	ym mis Medi
Bydd pob cyhoeddiad a chyhoedduswydd sy'n gysylltiedig ag arolygon y Comisiwn - ein prif gyswllt â'r cyhoedd - yn dweud yn glir y gall y cyhoedd ddelio â'r Comisiwn yn Gymraeg. Bydd cyhoeddiadau Saesneg yn cynghori bod fersiwn Gymraeg ar gael.	Parhaus